# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 23 MAWRTH 2022

| PWNC |
|---|
| **CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU** |

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**I:**

- **Gymeradwyo argymhelliad is-grŵp y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl) i benodi Osian Richards fel Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y CLl**
- **Gymeradwyo argymhelliad is-grŵp y CLl i benodi Ian Guy fel Dirprwy Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y CLl**

**RHESYMAU:**

Ar 10 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CLl:

- fod darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd aelodau'r cynllun o fwrdd pensiwn fod yn aelod cyfetholedig (heb bleidlais) ar y CLl

Ar 24 Mawrth 2021, cymeradwyodd y CLl:

- y broses benodi, yn cynnwys sefydlu is-grŵp i'r CLl
- y fanyleb person ar gyfer Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun

Mae'r broses benodi bellach wedi'i chwblhau ac mae argymhellion is-grŵp y CLl angen cymeradwyaeth y CLl.



| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>CMoore@carmarthenshire.gov.uk |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# DYDDIAD 23 MAWRTH 2022

## CYNRYCHIOLAETH AELODAU'R CYNLLUN AR Y CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r Cydbwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gydbwyllgor wedi'i gyfansoddi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac felly mae'n rhaid i aelodau'r CLl sydd â phleidlais fod yn aelodau etholedig. Mae aelodaeth gyfredol y Cydbwyllgor (fel y nodir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA)) yn un aelod etholedig a enwebir gan bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae aelodau'r CLl wedi ystyried cynrychiolaeth aelodau'r cynllun yn ddiweddar i gynorthwyo â thryloywder PPC ac felly gryfhau trefniadau llywodraethu PPC. Gall Cynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun ymuno â'r CLl ond ddim ond fel aelodau cyfetholedig, heb bleidlais. Aelodau heb bleidlais fydd Cynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun a bydd hawl ganddynt i weld yr holl bapurau, mynychu cyfarfodydd a siarad mewn cyfarfodydd, ar bob eitem ar y rhaglen.

Rhagwelir y bydd cynrychiolydd aelodau'r cynllun o un o'r wyth Bwrdd Pensiwn unigol yn gwella'r ymgysylltu â'r Byrddau Pensiwn ymhellach a byddai bod yn aelod bwrdd presennol yn golygu bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol ynghyd â bod yn gyfarwydd â rheoliadau buddsoddi a llywodraethu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ar 10 Rhagfyr 2020, cymeradwyodd y CLl:

- fod darpariaeth ar gyfer cynrychiolydd aelodau'r cynllun o fwrdd pensiwn fod yn aelod cyfetholedig (heb bleidlais) ar y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl);
- bod gofyn i bob Awdurdod Cyfansoddol gadarnhau cynnwys cynrychiolydd aelodau cyfetholedig ar y CLl ac y gwneir y diwygiadau angenrheidiol i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA);
- bod y Gweithgor Swyddogion yn paratoi manyleb person a phroses ddethol i'w cyflwyno i gyfarfod o'r CLl yn y dyfodol i'w cymeradwy'n ffurfiol.

Ar 24 Mawrth 2021, cymeradwyodd y CLl:

- y broses benodi, yn cynnwys sefydlu is-grŵp
- y fanyleb person ar gyfer cynrychiolydd aelodau'r cynllun

Cafodd adendwm Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) ei lunio er mwyn gallu penodi cynrychiolydd aelodau'r cynllun a dirprwy gynrychiolydd aelodau'r cynllun ar y CLl ac mae hyn

wedi cael ei weithredu gan bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol.

Ym mis Rhagfyr 2021, anfonwyd e-bost at yr wyth Cadeirydd Bwrdd Pensiwn unigol, yn atodi dogfen sy'n egluro'r broses benodi a'r manyleb person, yn gwahodd cynrychiolwyr aelodau'r cynllun i gyflwyno datganiad o ddiddordeb ar gyfer rôl cynrychiolydd aelodau'r cynllun neu ddirprwy gynrychiolydd aelodau'r cynllun. Derbyniwyd pedwar enwebiad.

Gwahoddwyd y pedwar i gyfweliad a chynhaliwyd y cyfweliadau ar-lein ar ddydd Mercher, 23 Chwefror 2022. Roedd panel cyfweld is-grŵp y CLl yn cynnwys y Cyng. Clive Lloyd (Cadeirydd), y Cyng. Chris Weaver a'r Cyng. Ted Palmer gyda chefnogaeth yn cael ei darparu gan yr Awdurdod Lletya.

Yn dilyn y cyfweliadau, mae is-grŵp y CLl yn argymell bod:

- Osian Richards o Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei benodi fel Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar gyfer PPC
- Ian Guy o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe yn cael ei benodi fel Dirprwy Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar gyfer PPC
  (Bydd angen i'r dirprwy fynychu cyfarfodydd hefyd yn absenoldeb Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun)

Bydd y penodiad yn dod i rym ar unwaith wedi i'r CLl gymeradwyo'r argymhellion, gyda daliadaeth am ddwy flynedd. Os bydd yr unigolyn yn rhoi'r gorau i'w rôl fel cynrychiolydd aelodau'r cynllun o fwrdd pensiwn o fewn y ddwy flynedd hynny, bydd eu rôl fel cynrychiolydd / dirprwy gynrychiolydd aelodau'r cynllun hefyd yn dod i ben.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **NA** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn a Chydraddoldeb<br>**DIM** | Cyfreithiol<br>**OES** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfreithiol**<br>Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) wedi cael ei addasu a'i gymeradwyo gan bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol yng Nghymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma<br><br>Yn wreiddiol, nid oedd y Cytundeb Rhwng Awdurdodau (IAA) yn caniatáu penodi Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun ar y CLl; mae adendwm i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau wedi cael ei lunio a'i weithredu gan bob un o'r wyth awdurdod cyfansoddol. |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |